Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Gylch Meithrin Llangeitho
## Ysgol Gynradd Llangeitho
## Llangeitho
## Tregaron
## Ceredigion
## SY25 6TR

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Llangeitho

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llangeitho |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Y Pwyllgor Rheoli |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Graham Parker |
| Person â gofal | Lynwen Hughes |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 i 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 7 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Mawrth a dydd Iau rhwng 9.00yb a 4.30yp a dydd Mercher a dydd Gwener rhwng 9.00yb a 12.00yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu "cynnig gweithredol" y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 11/12/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 16/01/2013 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 03/12/2019 |

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad Saesneg ar yr aelwyd.

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn ymyrryd llai yng ngweithgareddau'r plant i hybu eu hannibyniaeth

A2 Darparu cyfleoedd pwrpasol i ddysgu am rolau pobl eu cymuned

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud penderfyniadau deallus wrth ddewis ardaloedd i chwarae. Mae'r rhan fwyaf yn mynegi barn yn dda ac yn cyfrannu syniadau at weithgareddau yn effeithiol, trwy greu mapiau meddwl. Er enghraifft, maent yn ymweld â chastell, sy'n deillio o syniadau'r plant. Mae llawer yn dangos cyffro a miri wrth drafod anrhegion y Nadolig yn hyderus. Yn ystod amser cylch, mae'r mwyafrif yn trafod eu teimladau'n ddeallus ac yn ceisio egluro pam maent yn teimlo'n hapus, yn gyffrous neu'n drist.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd y lleoliad yn eiddgar ac yn ymdopi'n dda wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Maent yn gyfarwydd iawn â'r drefn ddyddiol ac mae bron pob un yn cydymffurfio yn dda â'r drefn, er enghraifft gan wybod bod amser cylch yn dilyn amser tacluso. Mae hwyl a chwerthin brwd ymysg y plant a'r ymarferwyr ac mae hyn yn rhan annatod o ethos y lleoliad. Mae agweddau cadarnhaol y plant yn sicrhau bod llawer yn dangos diddordeb a chyffro wrth ddysgu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gyfeillgar ac yn cyd-chwarae'n dda gyda'i gilydd. Er enghraifft, maent yn chwarae yn y siop a cheisio helpu ei gilydd yn llwyddiannus wrth lenwi troli â gwrthrychau amrywiol. Maent yn pryderu os oes rhywun yn teimlo'n drist ac maent yn amyneddgar wrth gynorthwyo eraill i ddarganfod tegan sydd ar goll. Mae'r rhan fwyaf yn gwrtais ac yn defnyddio moesau pwrpasol yn ystod amser byrbryd. Mae llawer yn teimlo eu bod nhw'n llwyddo wrth gwblhau gweithgareddau heriol, fel tynnu llun gyda chamera digidol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn diddori yn eu chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, maent yn chwarae'n fwriadus gyda'u hoff deganau, fel deinosoriaid o wahanol faint. Yn ogystal, maent yn adeiladu tyrau gyda blociau yn ddiwyd. Maent yn mwynhau canu caneuon a rhigymau syml ac yn deall eu bod nhw'n dysgu'r Gymraeg wrth siarad a gwneud ystumiau. Mae'r rhan fwyaf yn dysgu am nodweddion siapiau a'u maint yn effeithiol, wrth chwarae gemau bwrdd a chwblhau jig-so yn gydwybodol. Mae bron bob un yn dysgu sut i ddefnyddio llwy ac offer eraill yn effeithlon wrth chwarae yn ddeallus yn y gegin fwd.

Mae bron pob un plentyn yn dysgu medrau newydd yn gyson wrth iddynt brofi amrywiaeth o gyfleoedd chwarae pwrpasol, fel adnabod eu henwau a thywallt diodydd yn ofalus. Yn ogystal, maent yn golchi eu dwylo yn bwrpasol, mynd i'r toiled yn annibynnol ac yn ymdrechu i wisgo eu cotiau heb gymorth, cyn dewis mynd i'r ardal allanol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd pwrpasol yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) o'u mannau cychwyn. Mae medrau cychwynnol llawer ohonynt yn isel yn y Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando ar gyfarwyddiadau a gweithredu arnynt yn effeithiol. Maent yn canolbwyntio'n ddiwyd wrth labelu anrhegion Nadolig a chwilmanta yn y pridd am bentagonau. Maent yn ymateb i gerddoriaeth yn frwdfrydig ac yn ymuno'n hyderus mewn caneuon cyfarwydd, fel 'Sosban Fach'. Mae llawer o blant yn cyfathrebu'n glir wrth ymateb i drafodaethau. Maent yn ystyried anghenion pobl eraill yn bwrpasol ac yn esbonio'u teimladau'n synhwyrol. Mae'r mwyafrif yn defnyddio geiriau Cymraeg ac ymadroddion syml yn dda, wrth iddynt werthu nwyddau yn y siop chwarae rôl.

Mae llawer o blant yn diddori mewn llyfrau ac yn ystyried eu cynnwys yn effeithiol. Maent yn trafod digwyddiadau yn ddealladwy ac yn trin llyfrau fel darllenwyr hyderus. Maent yn ymateb â diddordeb i gynnwys storïau, fel dilyn helyntion draenog, a'i frwydr gyda'r tywydd. Mae llawer o blant yn gwneud marciau'n bwrpasol gyda chyfryngau gwahanol fel sialc a phaent. Yn ogystal, maent yn nodi archebion o'r siop yn effeithiol a pharatoi eu llythyron Nadolig yn awyddfrydig. O ganlyniad, maent yn mwynhau eu profiadau ysgrifennu cynnar ac mae'r mwyafrif yn esbonio pwrpas eu hysgrifennu yn eglur.

Mae llawer o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn effeithiol ac mewn cyd-destunau cywir. Maent yn cyfrif hyd at 10 yn hyderus ac yn trafod nodweddion siapiau gwahanol yn ystyrlon, gan nodi'r gwahaniaethau rhyngddynt yn fwriadus. Mae llawer yn defnyddio siapiau tri dimensiwn a gwrthrychau 'trwm' ac 'ysgafn' yn ddoeth, wrth adeiladu sled i gludo anrhegion. Maent yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau mathemategol yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn symud dail allan o gafn gyda llif grymus, ar ôl mesur cyfaint blwch â dŵr. Yn ogystal, maent yn creu cymysgedd cytbwys gyda cherrig mân a phridd yn y gegin fwd, trwy lenwi a gwacáu powlenni yn ofalus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau TGCh yn llwyddiannus trwy ddefnyddio llechi a theganau electronig. O ganlyniad, maent yn ymgyfarwyddo'n effeithiol â'r dechnoleg, trwy ddefnyddio'r cyfarpar yn eu gweithgareddau dyddiol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol da wrth gydsymud i gerddoriaeth a defnyddio cyfarpar anturus yn frwdfrydig. Mae llawer yn datblygu medrau meddwl a chreadigol pwrpasol, sy'n effeithio'n gadarn ar eu dysgu. Er enghraifft, maent yn creu patrymau diddorol trwy edafu gwlân o gwmpas ymylon siapiau a pheintio creaduriaid yr hydref yn annibynnol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel iawn i ddiogelwch ac iechyd y plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae pob un o'r ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant diogelu perthnasol a diweddar, sy'n cefnogi eu dealltwriaeth o anghenion y plant, sy'n sicrhau gofal pwrpasol ar eu cyfer. Maent yn gyfarwydd iawn â gweithdrefnau dyddiol y lleoliad ac maent yn mynychu hyfforddiant priodol fel cymorth cyntaf, hylendid bwyd a rheoli ymddygiad plant.

Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid da ac yn golchi dwylo a gwisgo ffedogau a menig yn gydwybodol. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi damweiniau neu anafiadau yn effeithiol ac mae asesiadau risg yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd effeithiol i'r plant fyw'n iach ac maent yn atgyfnerthu pwysigrwydd iechyd y geg yn llwyddiannus, trwy annog y plant i frwsio eu dannedd. Cynigir amrywiaeth o ffrwythau blasus i'r plant adeg byrbryd, sy'n atgyfnerthu eu hymwybyddiaeth ymhellach o fwyd maethlon. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol bwriadus, fel symud a dawnsio ar ddechrau bob sesiwn. Yn ogystal, darperir gweithgareddau anturus yn yr ardal allanol i redeg, gyd-bwyso, neidio a dringo.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ac maent yn delio ag unrhyw anniddigrwydd yn effeithiol. Maent yn gyson garedig ac addfwyn wrth siarad â'r plant ac mae hyn yn arwain at greu awyrgylch hapus a hamddenol. Rhoddir anogaeth a chefnogaeth i'r plant ddatrys unrhyw wrthdaro eu hunain, fel cymell ei gilydd i deimlo'n hapusach. O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu sut i ddatblygu gwydnwch. Mae'r ymarferwyr yn canmol y plant yn rheolaidd ac yn atgyfnerthu eu hunanhyder yn gyson trwy glodfori eu hymdrechion yn dda.

Mae systemau cadarn yn eu lle i gefnogi plant ag anghenion addysgol arbennig ac mae'r lleoliad yn cydweithio'n agos iawn gydag asiantaethau allweddol fel therapyddion lleferydd ac ymwelwyr iechyd. Rhoddir gwybodaeth gynhwysfawr i rieni am gynnydd eu plant. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion, eu galluoedd a'u hoffterau unigol.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i adnoddau a gweithgareddau. Enghraifft dda o hyn yw gwybodaeth drylwyr yr ymarferwyr am alergeddau a dewisiadau dietegol y plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol er lles y plant. Mae disgwyliadau uchel ganddynt ac maent yn darparu cyfleoedd diddorol i'r plant ddysgu trwy brofiadau ymarferol. Enghreifftiau da o hyn yw creu draenogod o does a brigau a defnyddio ysbienddrych i adnabod adar gwahanol. Mae'r ymarferwyr yn holi'r plant yn ddeallus, sy'n effeithio'n bwrpasol ar wella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, maent yn ymyrryd yn ormodol yn ystod gweithgareddau, sy'n cyfyngu ar ddysgu annibynnol y plant.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm difyr sy'n adlewyrchu athroniaeth y cyfnod sylfaen yn fwriadus. Maent yn cynllunio profiadau dysgu ystyrlon, sy'n targedu diddordebau'r plant yn gadarnhaol tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r gweithgareddau effeithiol yn cynnwys heriau i ddarganfod anifeiliaid yng nghanol yr helyg ac i bobi myffins iachus.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd y plant. Maent yn canolbwyntio'n dda ar wella Cymraeg y plant trwy ailadrodd geiriau ac ymadroddion cyson, a chanu hwiangerddi bywiog. Mae eu harferion rheolaidd yn cefnogi'r plant yn dda i ddeall cysyniadau mathemategol, fel pwrpas arian a sut i fesur taldra castell, trwy rifo blociau. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau TGCh y plant yn llwyddiannus ac yn cynnig cyfleoedd da iddynt ddefnyddio cyfarpar

technolegol. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn herio'r plant yn effeithiol i wella'u medrau TGCh cynnar.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant. Er enghraifft, maent yn eu hannog i ddringo'n frwd ar gyfarpar anturus a chwarae rôl mewn coedwig ddychmygol y wiwerod.

Mae pwyslais clir gan ymarferwyr ar ddatblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant. Maent yn dathlu amrywiaeth yn synhwyrol trwy astudio patrymau rangoli a dathlu gwyliau fel Diwali. Yn ogystal, maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus, trwy weithgareddau fel creu baneri Owain Glyndŵr.

Gwneir defnydd buddiol o ymweliadau. Enghreifftiau da, sydd yn cyfatebu â themâu penodol, yw ymweliadau i fferm gyfagos a chastell Aberystwyth. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn gwneud defnydd digon buddiol o ymwelwyr, sydd yn cyfyngu ymwybyddiaeth y plant o rolau trigolion eu milltir sgwâr.

Mae'r gweithdrefnau asesu yn effeithiol. Mae'r canfyddiadau yn cyfatebu'n ddibynadwy â deilliannau'r plant ac mae'r ymarferwyr yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant sut i wella'u gwaith. O ganlyniad, maent yn herio'r plant tuag at y camau nesaf yn eu dysgu yn fwriadus.

Mae'r lleoliad yn cynnal cyfarfodydd defnyddiol gyda rhieni a gofalwyr i drafod cynnydd eu plant. Maent yn darparu adroddiadau manwl iddynt, sy'n adlewyrchu cyflawniadau eu plant yn effeithiol.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae plant yn derbyn gofal ac addysg mewn adeilad sydd wedi ei gynllunio a'i osod i hyrwyddo'u hannibyniaeth a'u hannog i ddysgu a datblygu eu medrau'n dda. Gwneir defnydd effeithiol o'r amgylchedd ac ardaloedd chwarae ysgogol. Enghreifftiau effeithiol o hyn yw'r ardaloedd tawel, chwarae rôl, darganfod, creadigol a mathemategol. Ceir amrywiaeth effeithiol o adnoddau ymhob ardal, o fewn cyrraedd y plant, sy'n cefnogi'r dysgu ac annibyniaeth y plant yn fuddiol. Mae'r amgylchedd yn groesawgar a diddorol ac mae'r arddangosfeydd niferus o bosteri a gwaith crefft y plant yn ddeniadol iawn.

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r adeilad ac mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau diogelwch effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Mae'r amgylchedd yn hynod ddiogel a glân, ac o ganlyniad, yn hyrwyddo diogelwch a lles plant yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn cael ei lanhau'n ddyddiol ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r cyfarpar ac adnoddau ac yn cynllunio cyfleoedd chwarae ysgogol i'r plant. Er enghraifft, mae'r plant yn cael dewis chwarae yn yr ardaloedd tu mewn neu yn yr ardal allanol. Mae hyn yn cefnogi eu dysgu'n llwyddiannus ac mae ansawdd da y gweithgareddau yn sicrhau bod plant yn canolbwyntio am gyfnodau hir. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau defnyddio pwmp syml i drosglwyddo dŵr o un lle i'r llall. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol i'r plant chwarae'n gorfforol, gyda chyfleoedd buddiol iddynt gydbwyso,

dringo a chwilio'n frwdfrydig am anifeiliaid yn y goedwig. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn hybu creadigrwydd a dychymyg y plant yn effeithiol yn yr ardaloedd marcio, peintio, y twb tywod a'r gegin fwd.

Ceir cyflenwad llwyddiannus o adnoddau o ansawdd da, sy'n briodol i oedran a datblygiad y plant. Mae'r adnoddau yn hygyrch i'r plant, sy'n galluogi'r plant i wneud dewisiadau doeth ynglŷn â'u chwarae. Mae ystod eang o deganau ac offer i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn dda, fel llyfrau a doliau. Ceir dewis da o adnoddau i blant ddatblygu'u medrau TGCh gan gynnwys adnoddau sain a recordio. Yn ogystal, maent yn dysgu am bwysigrwydd ailgylchu yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn ailddefnyddio nwyddau a jync yn dda ac yn hybu egwyddorion cynaliadwyedd yn fwriadus, trwy greu gemau a chyfarpar eu hunain.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn llywio cyfeiriad pwrpasol i waith y lleoliad gan sicrhau profiadau difyr i'r plant, sy'n effeithio'n dda ar eu lles a'u dysgu. Mae hi'n gwrando ar gyngor eraill yn effeithiol ac yn gweithredu ar unrhyw argymhellion i wella yn brydlon. O ganlyniad, mae'r profiadau, cynllunio gweithgareddau a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n drylwyr ar fodloni anghenion y plant yn llwyddiannus. Mae'r arweinydd yn gweithio'n gydwybodol gyda'r ymarferwyr ymroddgar ac mae ganddynt ddisgwyliadau cadarn o ran eu hunain a'r plant. O ganlyniad, maent yn llwyddo i ddatblygu medrau'r plant yn effeithiol.

Mae'r unigolyn cyfrifol a'r pwyllgor rheoli yn effeithiol dros ben. Maent yn cyfatebu a phlethu holl agweddau arweinyddol y lleoliad i'w gilydd yn gampus. O ganlyniad, mae dylanwad yr unigolyn cyfrifol ar waith dyddiol a chyfeiriad strategol y lleoliad yn fendigedig. Mae ei gefnogaeth feistrolgar yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn trwy werthusiadau, goruchwyliadau a thrafodaethau hyfedr. Mae trefniadau cadarn a chaboledig i fonitro deilliannau'r plant a'r ddarpariaeth yn bodoli, sy'n cefnogi'n gadarn unrhyw feysydd i'w gwella yng ngwaith yr arweinydd a'r ymarferwyr. Mae trylwyredd y gweithdrefnau newyddiannus yn sicrhau targedau effeithiol dros ben ar gyfer creu gwelliannau argyhoeddedig. Maent yn arwain at newidiadau pwrpasol i'r dyfodol, fel adeiladu estyniadau mewnol ac allanol, ar ôl ennill a defnyddio grantiau cenedlaethol yn wych.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso cadarn yn treiddio trwy arferion y lleoliad. Mae pawb yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau ac maent yn cael eu rhannu'n ddoeth rhwng yr ymarferwyr i greu perchnogaeth effeithiol. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau ei gilydd, rhieni a gofalwyr, y plant ac asiantaethau allanol. Maent yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda phawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau dysgu'r plant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella agweddau angenrheidiol sydd angen sylw. Er enghraifft, maent yn gwrando ar rieni a gofalwyr ac yn gweithredu ar y canfyddiadau, fel defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfleu gwybodaeth iddynt.

Mae'r pwyllgor rheoli yn dyrannu adnoddau yn ddoeth. Gwneir hyn trwy sicrhau digon o ymarferwyr cymwys, sydd yn cael hyfforddiant perthnasol, i fodloni anghenion y plant yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r defnydd o'r gyllideb yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r cynllun datblygu yn fwriadus. O ganlyniad, mae'r pwyllgor rheoli yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn

effeithio'n uniongyrchol ar y ddarpariaeth, y dysgu a lles y plant. Enghraifft dda yw'r cydweithio parod gyda'r awdurdod lleol i ddefnyddio grantiau yn ddoeth, i gyllido estyniadau, cyfarpar a hyfforddiant defnyddiol er lles y plant.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol, fel y rhieni, sy'n cefnogi trwy gynnal yr adeilad a chodi arian yn gyson. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n llwyddiannus gyda'r holl bartneriaid i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Er enghraifft, maent yn gwrando'n synhwyrol ar awgrymiadau swyddogion yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin i wella'r ddarpariaeth. Yn ogystal, mae cysylltiadau cadarnhaol iawn yn bodoli gyda'r ysgol. Mae cytundeb llwyddiannus ganddynt i rannu'r safle'n ddeallus ac i drosglwyddo'r plant i'r cam nesaf yn eu haddysg yn ddiffwdan.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/02/2020